

Fforwm Cydnerth Lleol De Cymru



**FCCLDC
SWLRF**

South Wales Local Resilience Forum

COFRESTR RISGIAU CYMUNEDOL



CYNNWYS

Cyflwyniad

03

Risgiau Clefyd

05

Tywydd Garw

10

Llifogydd

12

Symudiad Tir

14

Damweiniau
Diwydiannol

17

Colli Cyfleustodau

20

Clefydau Anifeiliaid

23

Bygythiadau Maleisus

26

Bod Yn Barod Yn
Y Cartref

30

Bod Yn Barod Fel
Busnes

33

Manylion Cyswllt
Partneriaid

35



CYFLWYNIAD

BETH YW FFORWM CYDNERTH LLEOL DE CYMRU?

Mae Fforwm Cydnerth Lleol De Cymru yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl sefydliadau y mae'n ofynnol iddynt baratoi ar gyfer ac ymateb i argyfyngau mawr yn ardal Heddlu De Cymru.

Mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, gwasanaethau brys, Cyfoeth Naturiol Cymru, sefydliadau iechyd, y Swyddfa Dywydd, Gwylwyr y Glannau, cwmnïau cyfleustodau, cwmnïau trafndiaeth a'r trydydd sector.

Fel partneriaid Fforwm Cydnerth Lleol, rydym yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau parodrwydd i alluogi ymateb amlasiantaethol i argyfyngau.

Caiff y trefniadau hyn eu profi a'u diweddarau'n rheolaidd er mwyn i ni allu ymateb ar unwaith ac yn effeithiol i unrhyw ddigwyddiad posibl.

BETH YW'R GOFRESTR RISGIAU CYMUNEDOL?

Y ddogfen hon yw Cofrestr Risgiau Cymunedol Fforwm Cydnerth Lleol De Cymru. Mae'n darparu gwybodaeth am risgiau posibl a allai gael effaith ar gymunedau a busnesau yn ardal De Cymru.

Mae'n rhoi gwybodaeth am yr hyn y mae'r Fforwm Cydnerth Lleol yn ei wneud i gynllunio ar gyfer y risgiau hyn, ac yn rhoi cyngor ar sut i baratoi a ble i gael rhagor o gyngor.

Mae'r risgiau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn erbyn

[Cofrestr Risgiau Cenedlaethol y DU](#).

Cofrestr Risgiau Cymunedol FCLDC
- **Fersiwn 15. 2026**

RHANBARTH FFORWM CYDNERTH LLEOL DE CYMRU



Mae rhanbarth Fforwm Cydnerth Lleol De Cymru yn yr un ardal â ffin Heddlu De Cymru ac mae'n cynnwys 7 Awdurdod Lleol, 3 Bwrdd Iechyd a 2 Wasanaeth Tân.

Mae tua 1.3 miliwn o bobl yn byw yn Ne Cymru, sy'n cyfateb i 42% o gyfanswm poblogaeth Cymru.



RISGIAU CLEFYD



CLEFYDAU HEINTUS DYNOL

Mae clefydau heintus dynol yn afiechydon sy'n lledaenu rhwng pobl.

Mae'r rhan fwyaf o achosion o glefydau heintus yng Nghymru yn cael eu rheoli'n effeithiol drwy fesurau iechyd cyhoeddus sefydledig fel brechu, profi a rheoli heintiau.

Fodd bynnag, gall rhai heintiau ledaenu'n haws neu gael mwy o effaith ar gymunedau. Mewn nifer fach o achosion, gall achosion waethygu i effeithio ar sawl rhanbarth neu wlad.

BRIGIADAU O ACHOSION O GLEFYDAU HEINTUS

Mae brigiadau o achosion yn digwydd pan fydd haint yn lledaenu o fewn cymuned, rhanbarth neu wlad.

Gall brigiadau o achosion ddigwydd oherwydd heintiau adnabyddus (e.e. salmonela neu'r fflw) neu oherwydd clefydau heintus difrifol â chanlyniadau pellgyrhaeddol sydd angen gofal arbenigol.

Er y gall y raddfa a'r effaith amrywio, mae'r rhan fwyaf o achosion fel arfer yn cael eu rheoli trwy gamau iechyd cyhoeddus cydlynol ac ymdrechion cyfunol partneriaid lleol.

Gall rhai pobl fel oedolion hŷn neu rai â chyflyrau hirdymor fod mewn mwy o berygl. I chi, gallai hyn olygu:

- Efallai y bydd meddygfeydd ac ysbytai yn brysurach
- Efallai y bydd tarfu ar ysgolion, meithrinfeydd neu weithleoedd
- Efallai y bydd absenoldebau staff yn effeithio ar wasanaethau cyhoeddus
- Efallai y byddwch yn sylwi ar fwy o negeseuon iechyd cyhoeddus





PANDEMIG

Mae pandemig yn epidemig sy'n lledaenu dros ardal eang iawn ac sy'n effeithio ar nifer fawr o bobl.

Nid yw pandemigau bob amser mor ddifrifol â phandemig COVID-19. Mae'r term yn cyfeirio at ba mor eang mae'r clefyd yn lledaenu, nid ei berygl i bobl.

Gallai pandemig gael ei achosi gan glefydau adnabyddus fel y ffliw, neu glefydau newydd a achosir gan firysau, bacteria ac organebau eraill.

Y pethau allweddol i wybod am bandemigau yw:

- Mae'r organeb heintus fel arfer yn un newydd, felly nid oes gan y rhan fwyaf o bobl fawr ddim imiwnedd neu ddim imiwnedd o gwbl.
- Efallai y bydd yn gallu lledaenu'n gyflym ac yn eang.
- Gall ddod mewn tonnau, sy'n golygu y gall aflonyddwch ddigwydd fwy nag unwaith
- Efallai na fydd brechiadau neu feddyginiaethau ar gael.

YR HYN Y GALLWCH CHI EI WNEUD

Gall camau bach amddiffyn pawb. Mae'r rhan fwyaf o bobl eisiau gwneud y peth iawn. Gall camau bach wneud gwahaniaeth mawr yn ystod unrhyw frigiad o achosion o glefyd heintus neu bandemig.

Gall y camau syml hyn eich amddiffyn chi, eich teulu, a'ch cymuned:

- Dilyn cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yw un o'r ffyrdd gorau o amddiffyn eich hun ac eraill. Mae'r sefydliadau hyn yn monitro risgiau clefydau heintus bob dydd ac yn darparu'r cyngor mwyaf dibynadwy a diweddaraf.
- Mae sicrhau eich bod chi wedi cael yr holl frechiadau angenrheidiol yn helpu i'ch amddiffyn chi rhag mynd yn sâl iawn ac yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd lleol – rhywbeth sydd o fudd i bawb. Os ydych chi'n gymwys, mae cael eich brechlyn ffliw tymhorol bob blwyddyn yn ychwanegu haen ychwanegol o amddiffyniad.
- Mae hylendid da yn atal clefydau rhag lledaenu. Mae golchi'ch dwylo'n rheolaidd, gorchuddio'ch ceg a'ch trwyn wrth beswch a thisian, a chael gwared ar hancesi papur yn iawn i gyd yn helpu i atal heintiau rhag symud trwy gartrefi, ysgolion a gweithleoedd.
- Os ydych chi'n teimlo'n sâl, mae aros gartref ac osgoi cyswllt â phobl a allai fod yn fwy agored i niwed yn helpu i leihau'r risg o ledaenu salwch ymhellach. Gall gwirio beth mae eich gweithle neu'ch ysgol yn bwriadu ei wneud yn ystod brigiadau o achosion hefyd eich helpu i baratoi.
- Gall cael cynllun cymorth personol bach wneud pethau'n haws os ydych chi'n teimlo'n sâl yn sydyn. Er enghraifft, gwybod pwy allai gasglu meddyginiaeth neu gyflenwadau hanfodol ar eich rhan os oes angen.



YR HYN RYDYN NI'N EI WNEUD YN NE CYMRU

Mae partneriaid Fforwm Cydnerth Lleol De Cymru yn gweithio gyda'i gilydd drwy gydol y flwyddyn i baratoi ar gyfer ac ymateb i risgiau clefydau heintus, gan gynnwys pandemigau posibl. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn helpu i sicrhau bod cymunedau'n parhau i gael eu diogelu ac i gael y wybodaeth ddiweddar.

Mae ein gwaith yn cynnwys:

- Diweddarau cynlluniau traws-bartner yn rheolaidd fel bod pob asiantaeth, gan gynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol, gwasanaethau brys ac eraill, yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.
- Dod â sefydliadau at ei gilydd i gytuno ar sut rydym yn atal, yn canfod ac yn rheoli achosion, gan sicrhau dull unedig.
- Cynnal ymarferion rheolaidd i brofi ein cynlluniau, cryfhau cydgysylltu, a nodi gwelliannau cyn i frigiad o achosion neu bandemig ddigwydd.
- Cydlynu cymorth ar draws partneriaid i helpu gwasanaethau hanfodol i weithredu'n ddiogel.
- Cydweithio â phartneriaid dibynadwy i rannu canllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gyson ac yn hawdd eu deall, yn enwedig yn ystod cyfnodau o ansicrwydd.
- Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG ehangach i sicrhau bod brechlynnau newydd yn cael eu darparu'n amserol ac yn ddiogel yn ystod brigiadau o achosion neu bandemigau.
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i reoli marwolaethau yn ddiogel, yn barchus ac mewn ffordd gydgysylltiedig.

BLE I GAEL RHAGOR O GYNGOR

Mae cyngor iechyd cyhoeddus yn cael ei adolygu'n barhaus gan arbenigwyr. Mewn achosion o glefydau heintus, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a GIG Cymru bob amser yn darparu'r cyngor mwyaf dibynadwy a diweddar.

 Iechyd Cyhoeddus Cymru:
icc.gig.cymru



TYWYDD GARW



Gall tywydd garw achosi problemau sylweddol ac amharu ar fywyd arferol.

Y prif fathau o dywydd garw y mae angen i ni gynllunio ar eu cyfer yw stormydd, gwyntoedd cryfion, tymheredd isel, eira trwm, tonnau gwres a sychder. Mae De Cymru wedi profi'r rhan fwyaf o'r rhain dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae hinsawdd y byd yn newid a bydd yn parhau i newid dros y ganrif nesaf. Mae achosion o dywydd garw yn debygol o gynyddu yn y dyfodol o ganlyniad.

Gall tywydd garw achosi difrod i eiddo ac amharu ar rwydweithiau trafnidiaeth a chyfathrebu. Yn yr achosion gwaethaf, gall beryglu bywyd.

YR HYN Y GALLWCH CHI EI WNEUD

- Gwrandewch ar ragolygon tywydd a gweithredwch ar unrhyw rybuddion. Gwiriwch gyda'r Swyddfa Met, radio lleol ac awdurdodau lleol am ddiweddariadau a chyngor gan gynnwys cau ysgolion.
- Dilynwch y cyngor a roddir ar gyfer teithio. Os oes rhaid i chi deithio mewn tywydd garw, gwnewch yn siŵr bod gennych ddillad a chyflenwadau argyfwng digonol yn eich cerbyd.
- Siaradwch â'ch cyflogwr am gynlluniau tarfu tywydd garw.
- Gofynnwch i gymdogion a pherthnasau sy'n oedrannus neu'n sâl a oes angen unrhyw beth arnynt.

YR HYN RYDYN NI'N EI WNEUD YN NE CYMRU

Mae partneriaid Fforwm Cydnerth Lleol De Cymru yn gweithio gyda'i gilydd drwy gydol y flwyddyn i:

- Adolygu trefniadau ymateb amlasiantaethol ar gyfer tywydd garw yn barhaus a monitro rhagolygon tywydd
- Gweithio gyda'n gilydd i barhau i leihau'r tarfu ar wasanaethau hanfodol
- Cynnal hyfforddiant staff ac adnoddau i ymateb e.e. cerbydau graeanu, stoc halen ac ati.

BLE I GAEL RHAGOR O GYNGOR

I gael gwybodaeth am ragolygon y tywydd, rybuddion cyfredol a chyngor ar beth i'w wneud cyn ac yn ystod tywydd garw, ewch i wefan y Swyddfa Met:

[Tywydd a newid hinsawdd - Y Swyddfa Met](#)

[Cyngor - Y Swyddfa Met](#)

Gallwch hefyd gofrestru i gael e-byst yn rhybuddio am dywydd garw yn:

[Tanysgrifio ar gyfer hysbysiadau e-bost, rybuddion a chylchlythyrau - Y Swyddfa Met](#)



LLIFOGYDD

Nodwyd bod llifogydd yn risg uchel iawn i ranbarth Fforwm Cydnerth Lleol De Cymru.


Gall llifogydd darddu o sawl ffynhonnell, gan gynnwys afonydd, y môr, dŵr daear, dŵr wyneb a chronfeydd dŵr. Mae cartrefi, busnesau a seilwaith ledled y rhanbarth mewn perygl o lifogydd.

Mae effeithiau posibl llifogydd yn:

- Pobl yn cael eu lladd neu eu hanafu
- Difrod i eiddo, busnesau, tir amaethyddol, ffyrdd, gwasanaethau, a seilwaith
- Gwacáu cartrefi
- Pobl yn cael eu hynysu
- Tarfu ar gyfleustodau, trafnidiaeth a seilwaith allweddol arall
- Llygru a halogi'r amgylchedd lleol
- Dymchwel cronfeydd dŵr ac argaeau, llyncdyllau, a systemau draenio llifogydd yn methu

Yn ogystal â'r effaith uniongyrchol ar fywydau bob dydd pobl pan fydd llifogydd yn digwydd, gall adfer ar ôl llifogydd gymryd amser hir.

Mae rhagamcanion newid hinsawdd yn dangos bod cynnydd yn nhymheredd y môr a chynnydd yn amllder a difrifoldeb digwyddiadau tywydd eithafol yn debygol o gynyddu'r risg o lifogydd ledled y DU.



YR HYN Y GALLWCH CHI EI WNEUD

- Darganfod a ydych chi'n byw neu'n gweithio mewn ardal perygl llifogydd drwy edrych ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cofrestru i dderbyn rhybuddion llifogydd am ddim.
- Sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ragolygon y tywydd a rhybuddion llifogydd.
- Paratoi Cynllun Argyfwng yn y Cartref neu Gynllun Llifogydd Personol.
- Ystyried sut y gallwch amddiffyn eich hun a'ch eiddo yn ystod llifogydd – gosodwch gynhyrchion amddiffyn rhag llifogydd os oes rhai gennych, a lle bo modd symudwch eitemau gwerthfawr i loriau uwch.
- Sicrhau bod gennych yswiriant digonol.
- Os yw'n ddiogel gwneud hynny, ewch i weld cymdogion, perthnasau neu ffrindiau sy'n agored i niwed a allai fod angen cymorth.
- Peidiwch â mynd i mewn i ddŵr llifogydd oni bai bod y gwasanaethau brys yn eich cyfarwyddo i wneud hynny. Gall dŵr llifogydd fod yn hynod beryglus a chuddio peryglon.

YR HYN RYDYN NI'N EI WNEUD YN NE CYMRU

Mae partneriaid Fforwm Cydnerth Lleol De Cymru yn gweithio gyda'i gilydd drwy gydol y flwyddyn i:


- Archwilio a chynnal a chadw asedau llifogydd, cwlferi a gyliau yn rheolaidd.
- Monitro rhagolygon a rhoi rhybuddion amserol i'r rhai sydd mewn perygl.
- Nodi ardaloedd a allai gael eu heffeithio gan ddŵr llifogydd a phwy sydd mewn perygl.
- Darparu cyngor ac arweiniad i gartrefi a busnesau ynghylch llifogydd.
- Cynnal a phrofi ein cynlluniau ar gyfer ymateb i lifogydd.
- Cynllunio i leihau effeithiau llifogydd yn yr ardaloedd sydd fwyaf mewn perygl a lleihau'r aflonyddwch a achosir.

BLE I GAEL RHAGOR O GYNGOR

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu offer a gwybodaeth i ddiogelu eich teulu, eich eiddo a'ch busnes. Mae'r rhain yn cynnwys cyngor ar lifogydd a rhybuddion llifogydd byw.

[!\[\]\(003082e50e3009141f59bd5df831749f_img.jpg\) Cyfoeth Naturiol Cymru / Llifogydd](#)

[!\[\]\(17413706fd4997a1a4bdf85c6864eee1_img.jpg\) National Flood Forum – Elusen i helpu, cefnogi a chynrychioli pobl sydd mewn perygl o lifogydd.](#)



SYMUDIAD TIR



SYMUDIAD TIR

Symudiad tir – fel llyncdwll neu dirlithriad – yw'r enw a roddir i ddigwyddiad lle mae llwyth o ddeunydd fel craig, pridd neu falurion yn symud. Gall ddigwydd yn sydyn neu symud yn araf dros gyfnodau hir o amser.

Mae gan symudiadau tir ar lethrau naturiol a lethrau artiffisial y potensial i achosi tarfu sylweddol, difrod a marwolaeth.

Mae tomenni glo na defnyddir yn arbennig o agored i symudiadau tir gan fod llawer wedi'u dyddodi ar lethrau serth gan eu gwneud yn anfeydlog o bosibl. Mae tywydd garw yn cynyddu'r risg y bydd y rhain yn symud.

Mae rhanbarth Fforwm Cydnerth Lleol De Cymru yn cynnwys y nifer fwyaf o domenni glo nas defnyddir categori uwch yng Nghymru.

Mae effeithiau posibl symudiadau tir yn:

- Pobl yn cael eu lladd neu eu hanafu
- Difrod i eiddo, busnesau, tir amaethyddol, ffyrdd, gwasanaethau a seilwaith
- Gwacáu cartrefi
- Pobl yn cael eu hynysu
- Tarfu ar gyfleustodau a thrafnidiaeth
- Llygru a halogi'r amgylchedd lleol



YR HYN Y GALLWCH CHI EI WNEUD

- Darganfod a ydych chi'n byw neu'n gweithio mewn ardal a allai gael ei heffeithio gan symudiad tir.
- Sicrhau eich bod yn cael yr holl rybuddion tywydd a gwybodaeth diogelwch ddiweddaraf.
- Ystyried sut y gallwch chi amddiffyn eich eiddo.
- Sicrhau bod gennych yswiriant digonol.
- Paratoi cynllun gadael personol.
- Os yw'n ddiogel gwneud hynny, ewch i weld cymdogion, perthnasau neu ffrindiau sy'n agored i niwed a allai fod angen cymorth.

YR HYN RYDYN NI'N EI WNEUD YN NE CYMRU

Mae partneriaid Fforwm Cydnerth Lleol De Cymru yn gweithio gyda'i gilydd drwy gydol y flwyddyn i:

- Mae awdurdodau lleol yng Nghymru, yn ogystal â Chyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio, yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen o waith arolygu, cynnal a chadw a rheoli gwell ar gyfer safleoedd tomenni glo nas defnyddir ledled Cymru.
- Bydd Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Na Defnyddir (Cymru) yn sefydlu Awdurdod Tomenni Na Defnyddir Cymru ym mis Ebrill 2027. Bydd y corff cyhoeddus newydd hwn yn gyfrifol am wirio, cofnodi a monitro tomenni nas defnyddir yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n gywir.
- Mae partneriaid yn monitro rhagolygon tywydd ac yn darparu rhybuddion amserol i'r rhai sydd mewn perygl.
- Cynnal, profi a gweithredu cynlluniau amlasiantaethol a chynlluniau sefydliadau unigol ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau posibl.

BLE I GAEL RHAGOR O GYNGOR

Cyhoeddir lleoliadau a chategorïau tomenni glo nas defnyddir ar-lein:

[Hafan](#) | [MapDataCymru](#).

[Diogelwch tomenni glo](#) | [LLYW.CYMRU](#)

[Tirlithriadau - Arolwg](#)
[Daearegol Prydain](#)



DAMWEINIAU DIWYDIANNOL



DAMWEINIAU DIWYDIANNOL

Gall damweiniau diwydiannol ddigwydd ar safleoedd rheoleiddiedig neu gallant gynnwys cerbydau neu longau sy'n cludo deunyddiau diwydiannol trwy ardal De Cymru.

Gall digwyddiadau gynnwys ffrwydradau diwydiannol a thanau mawr, rhyddhau deunydd gwenwynig neu ymbelydrol neu fod â'r potensial i achosi anafiadau difrifol i'r cyhoedd a niweidio'r amgylchedd lleol.

Mae effeithiau posibl damweiniau diwydiannol yn:

- Pobl yn cael eu lladd neu eu hanafu
- Difrod i eiddo a'r ardal leol
- Llygru'r amgylchedd lleol, gan gynnwys cyrsiau dŵr, tir amaethyddol, a bywyd gwyllt
- Gorfod gadael yr ardal yr effeithir arni
- Tarfu ar gyfleustodau a chyflenwadau lleol a chenedlaethol
- Colledion economaidd i'r diwydiant dan sylw a busnesau lleol



YR HYN Y GALLWCH CHI EI WNEUD

- Gwiriwch os ydych chi'n byw ger safle rheoleiddiedig ac os felly, byddwch yn barod.
- Os ydych chi'n clywed rhybudd am ddamwain, ewch i mewn, caewch bob drws a ffenestr a gwrandewch ar orsafoedd radio lleol neu dilynwch y cyfryngau cymdeithasol i gael cyngor.
- Paratowch ar gyfer y posibilrwydd o orfod gadael eich cartref trwy baratoi bag brys o bethau y gallai fod eu hangen arnoch os bydd gofyn i chi adael mewn argyfwng (gweler yr adran Bod yn Barod Yn Y Gartref)

YR HYN RYDYN NI'N EI WNEUD YN NE CYMRU

Mae partneriaid Fforwm Cydnerth Lleol De Cymru yn gweithio gyda'i gilydd drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod yr holl wasanaethau brys angenrheidiol a phartneriaid eraill yn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol.

BLE I GAEL RHAGOR O GYNGOR

Mae busnesau sy'n gwneud, storio neu'n defnyddio sylweddau peryglus a'r rhai a allai niweidio iechyd pobl a'r amgylchedd trwy eu gweithrediadau yn cael eu rheoleiddio'n dynn.


Gallwch ddysgu mwy am hyn ar-lein:

[!\[\]\(003082e50e3009141f59bd5df831749f_img.jpg\) Cyfoeth Naturiol Cymru / Chwilio / Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol \(Cymru a Lloegr\) 2016](#)

[!\[\]\(17413706fd4997a1a4bdf85c6864eee1_img.jpg\) Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr \(COMAH\) - Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch](#)



COLLI CYFLEUSTODAU



COLLI CYFLEUSTODAU

Rydym i gyd yn dibynnu ar seilwaith a gwasanaethau hanfodol fel trydan, dŵr, nwy, tanwydd, trafnidiaeth, cyfathrebu, a gwasanaethau ariannol. Gallai colli'r rhain hyd yn oed am gyfnod byr neu o fewn ardal fach gael effaith sylweddol.

Mae effeithiau posibl methiant seilwaith neu golli cyfleustodau yn cynnwys:

- Tarfu ar wasanaethau hanfodol, busnesau a bywyd cartref arferol
- Glanweithdra gwael a diffyg dŵr yfed
- Cartrefi heb wres a gallu cyfyngedig i gynhesu bwyd a dŵr
- Gallu cyfyngedig i gadw bwyd yn oer neu wedi'i rewi
- Risg uwch i bobl sy'n agored i niwed Prinder tanwydd ar gyfer ceir a cherbydau eraill
- Pobl yn methu cael arian parod o beiriannau arian parod neu brynu gan ddefnyddio cerdyn
- Colli dulliau cyfathrebu llinell dir neu signal ffôn symudol



YR HYN Y GALLWCH CHI EI WNEUD

- Darganfod ble a sut i ddiffodd y cyflenwadau dŵr, nwy a thrydan yn eich cartref.
- Gwneud nodyn o rifau cyswllt ar gyfer eich cwmnïau cyfleustodau a darparwyr gwasanaethau eraill.
- Creu pecyn argyfwng sy'n cynnwys eitemau fel tortsh a radio weindio, bwyd tun a dŵr yfed.
- Ewch i weld cymdogion a pherthnasau a allai fod yn agored i niwed i ofyn a oes angen unrhyw beth arnynt.

YR HYN RYDYN NI'N EI WNEUD YN NE CYMRU

Mae partneriaid Fforwm Cydnerth Lleol De Cymru yn gweithio gyda'i gilydd drwy gydol y flwyddyn i:

- Gweithio gyda chwmnïau cyfleustodau i reoli toriadau cyflenwadau lle bo modd.
- Datblygu cynlluniau amlasiantaethol i reoli a lliniaru toriadau tymor hwy i wasanaethau, gan gynnwys trefniadau parhad busnes.
- Nodi pobl sy'n agored i niwed y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt os bydd toriad cyfleustodau.

BLE I GAEL RHAGOR O GYNGOR

Mae pob un o'r darparwyr cyfleustodau allweddol sy'n gwasanaethu ardal De Cymru yn cynnig cefnogaeth a chynghor ar sut i roi gwybod am broblemau gyda chyflenwad yn ogystal â beth i'w wneud os bydd toriad i gyflenwad, a rhifau cyswllt brys:

[!\[\]\(003082e50e3009141f59bd5df831749f_img.jpg\) Y Grid Cenedlaethol - Hafan](#)

[!\[\]\(17413706fd4997a1a4bdf85c6864eee1_img.jpg\) Dŵr Cymru - Hafan](#)

[!\[\]\(faf942dc3e59ce8eb64b4ac481eca7e0_img.jpg\) Cyfleustodau Cymru & Gorllewin - Cyflenwad Nwy a Chysylltiadau](#)



CLEFYD ANIFEILIAID



CLEFYD ANIFEILIAID

Bu nifer o achosion sylweddol o glefydau anifeiliaid yn y Deyrnas Unedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys clwy'r traed a'r genau, y tafod glas, a ffliw adar.

Gall clefydau anifeiliaid gael effaith ddifrifol ar y diwydiant ffermio. Rydym yn pryderu fwyaf am y rhai sy'n heintus iawn, sy'n gallu achosi cyfraddau marwolaethau uchel ymhlith da byw, neu sydd â'r posibilrwydd o heintio pobl.

Mae effeithiau posibl achosion o glefyd anifeiliaid yn cynnwys:

- Risgiau iechyd i bobl, yn enwedig gweithwyr yn y diwydiant da byw.
- Difrod i'r economi amaethyddol leol a cholli bywoliaeth i weithwyr fferm.
- Yr effaith ganlyniadol ar dwristiaeth a'r economi wledig sy'n deillio o gyfyngiadau ar symud a theithio a gyflwynir i atal clefyd rhag lledaenu.



YR HYN Y GALLWCH CHI EI WNEUD

- Os ydych chi'n rhedeg busnes amaethyddol, cynhaliwch arferion da o ran atal a rheoli clefydau, a rhowch frechiadau i'ch da byw lle bo modd.
- Os datganir achos o glefyd anifeiliaid, dilynwch unrhyw ganllawiau gan y llywodraeth ar y pryd i amddiffyn eich da byw ac atal y clefyd rhag lledaenu.

YR HYN RYDYN NI'N EI WNEUD YN NE CYMRU

Mae partneriaid Fforwm Cydnerth Lleol De Cymru yn gweithio gyda'i gilydd drwy gydol y flwyddyn i:

- Mae awdurdodau lleol a gwasanaethau milfeddygol yn sgrinio ac yn monitro iechyd anifeiliaid a symudiad da byw yn barhaus.
- Mae cynlluniau amlasiantaethol ar waith i reoli achosion o glefydau anifeiliaid egsoftig yn ogystal â fframweithiau iechyd anifeiliaid.

BLE I GAEL RHAGOR O GYNGOR

Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yw'r asiantaeth arweiniol ar gyfer iechyd a chlefydau anifeiliaid. Mae'r APHA yn asiantaeth weithredol a noddir gan DEFRA, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban:

[!\[\]\(003082e50e3009141f59bd5df831749f_img.jpg\) Iechyd Anifeiliaid | LLYW.CYMRU](#)

[!\[\]\(17413706fd4997a1a4bdf85c6864eee1_img.jpg\) Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion - GOV.UK](#)



BYGYTHIADAU MALEISUS



BYGYTHIADAU MALEISUS

Mae bygythiadau maleisus yn cynnwys gweithredoedd fel terfysgaeth a throseddau cyfundrefnol ac maent yn cael eu trefnu'n themâu fel ymosodiadau mewn lleoedd prysur, ymosodiadau ar drafnidiaeth a seilwaith critigol, ac ymosodiadau seiber.

Mae effeithiau posibl digwyddiad o'r math hwn yn:

- Pobl yn cael eu lladd neu eu hanafu
- Difrod i eiddo a seilwaith
- Tarfu ar seilwaith critigol a gwasanaethau hanfodol
- Pwysau ychwanegol ar wasanaethau brys ac ymatebwyr eraill
- Gorfodi pobl yn yr ardal yr effeithir arni i adael a chael lloches
- Tarfu ar yr economi genedlaethol a lleol
- Colli gwybodaeth bersonol neu gorfforaethol
- Problemau adfer a gwella hirdymor i'r rhai yr effeithir arnynt



YR HYN Y GALLWCH CHI EI WNEUD

Mae sefydliadau sy'n ymateb yn gweithio'n galed iawn i'ch cadw'n ddiogel rhag bygythiadau maleisus. Rhan o'r gwaith hwn yw cynhyrchu gwybodaeth hanfodol sy'n amlinellu'r rhan y gall unigolion ei chwarae wrth ymateb i ymosodiad neu fygythiad maleisus.

Er bod y siawns o gael eich dal mewn digwyddiad terfysgol yn fach iawn, mae'n bwysig bod yn barod a gwybod sut i amddiffyn eich hun. Ymgylfarwyddwch â'r cyngor a'r canllawiau sydd ar gael a chadwch lygad ar ymgyrchoedd gwybodaeth cyhoeddus.

Yn aml, mae aelodau'r cyhoedd a busnesau yn cael eu targedu gan amrywiaeth o ymosodiadau seiber, fel e-byst sgamio a dwyn hunaniaeth, ac mae'n bwysig eich bod chi'n gwybod pa gamau y gallwch chi eu cymryd i amddiffyn eich hun.

YR HYN RYDYN NI'N EI WNEUD YN NE CYMRU

Mae partneriaid Fforwm Cydnerth Lleol De Cymru yn gweithio gyda'i gilydd drwy gydol y flwyddyn i:

- Asesu risg a chanlyniadau lleol bygythiadau maleisus yn unol â chanllawiau'r DU a Llywodraeth Cymru.
- Datblygu ac ymarfer cynlluniau amlasiantaethol i sicrhau ymateb effeithiol i ymosodiadau maleisus, a rheoli eu canlyniadau.
- Cyflawni strategaeth gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU (CONTEST) yn y rhanbarth.
- Rhoi cyngor i'r cyhoedd a busnesau, a chefnogi ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y llywodraeth.



BLE I GAEL RHAGOR O GYNGOR

Mae gwefan y Swyddfa Diogelwch Gwrthderfysgaeth Genedlaethol (NCTSO) yn darparu gwybodaeth am yr ymgyrchoedd cyhoeddus diweddaraf mewn perthynas â strategaeth gwrthderfysgaeth llywodraeth y DU.

Er mwyn lliniaru ymosodiadau seiber, mae gwefannau ‘Ydych chi’n ymwybodol o seibr?’ a ‘Hanfodion Seiber’ y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yn darparu cyngor i'r cyhoedd a busnesau i'w helpu i baratoi'n well ar gyfer y mwyafrif helaeth o ymosodiadau seiber.

[!\[\]\(666e09182d4cd268646ea700ea60dcdf_img.jpg\) RHEDEG, CUDDIO, DWEUD - ProtectUK](#)

[!\[\]\(c3d993ca47bfe2a953c700506ce31fa0_img.jpg\) Bygythiadau a Chyngor - MI5.GOV.UK](#)

[!\[\]\(d66ff64371a51729ac8c1cdaa685ba6f_img.jpg\) Ymwybodol o Seibr - NCSC.GOV.UK](#)

[!\[\]\(e3f8612927870f2e0f9f5989e6dd3064_img.jpg\) Hanfodion Seiber - NCSC.GOV.UK](#)



BOD YN BAROD YN Y CARTREF



Yr hyn y gallwch chi ei wneud i fod yn barod yn eich cartref

Yn y rhan fwyaf o argyfyngau, y cyngor yw mynd y tu mewn, aros y tu mewn, a thiwnio i mewn i'r radio lleol, teledu lleol a chyfryngau cymdeithasol.



Cynllunio ar gyfer argyfwng

Er mwyn paratoi ar gyfer argyfwng, dylech gymryd amser i gael gwybod neu feddwl am:

- Lle a sut i ddiffodd y cyflenwad dŵr, nwy a thrydan yn eich cartref
- Y gweithdrefnau brys ar gyfer eich plant yn yr ysgol
- Y gweithdrefnau brys yn eich gweithle
- Sut y bydd eich teulu'n cadw mewn cysylltiad os bydd argyfwng
- A oes angen cymorth ar unrhyw gymdogion oedrannus neu agored i niwed
- Sut i diwnio i mewn i'ch gorsaf radio leol



Gartref mewn argyfwng:

Os ydych chi gartref pan ddigwydd argyfwng, ceisiwch gasglu'r canlynol at ei gilydd:

- Rhestr o rifau ffôn defnyddiol, e.e. perthnasau agos
- Allweddi'r tŷ a'r car
- Pethau ymolchi, nwyddau mislif ac unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn rheolaidd
- Radio batris neu weindio, gyda batris sbâr
- Pecyn cymorth cyntaf
- Ffôn symudol a gwefrydd
- Arian parod a chardiau banc
- Dŵr mewn poteli
- Bwydydd parod i'w bwyta

 Bod yn barod ar gyfer argyfyngau - Paratoi

 Bod yn ymwybodol o beryglon - Paratoi

Gadael eich cartref mewn argyfwng:

Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai y bydd y gwasanaethau brys yn gofyn i chi adael eich cartref. Os bydd hyn yn digwydd, gadewch mor gyflym a digyffro â phosib.

Os oes gennych chi amser:

- Diffoddwch y cyflenwad trydan, nwy a dŵr, datgysylltwch offer, a chlowch bob drws a ffenest
- Ewch â'r eitemau a restrir uchod
- Os ydych yn gadael mewn car, ewch â dŵr mewn poteli a blancedi
- Ewch â'ch anifeiliaid anwes
- Gwrandewch ar yr orsaf radio leol i gael cyngor a chyfarwyddiadau brys
- Rhowch wybod i'r gwasanaethau brys o'ch lleoliad a sut gellir cysylltu â chi.

Gwrandewch ar gyngor gan y gwasanaethau brys neu awdurdodau lleol am unrhyw gamau penodol y bydd angen i chi eu dilyn pan fydd yn ddiogel i chi ddychwelyd adref.



BOD YN BAROD FEL BUSNES



17

CAKES

PASTRIES

COFFEE

Come in
WE'RE
OPEN



Bod yn barod fel busnes

Os ydych chi'n berchen ar fusnes neu sefydliad neu'n gyfrifol amdano, ystyriwch sut y byddech chi'n ymdopi â:

- Gostyngiad sydyn a sylweddol yn nifer y staff
- Colli trydan neu gyfleustodau eraill
- Methu â chael mynediad i'ch safle
- Tarfu sylweddol ar wasanaethau trafnidiaeth a seilwaith
- Colli dulliau cyfathrebu

Dylai fod gan bob sefydliad fesurau parhad busnes digonol ar waith. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol i gael rhagor o wybodaeth.

[!\[\]\(d66ff64371a51729ac8c1cdaa685ba6f_img.jpg\) Pa mor barod ydych chi? - GOV.UK](#)

5 cam i barhad busnes effeithiol

- 1. Deall eich busnes** - Pa rannau o'r busnes sy'n hanfodol, a pha lefel flaenoriaeth fydddech chi'n ei rhoi i adfer swyddogaethau os ydynt yn methu?
- 2. Asesu Risg** - Pa risgiau mae eich busnes yn eu hwynebu? Ystyriwch y risgiau yn asesiad risg eich busnes, a'r hyn y gallwch ei wneud i leihau'r risgiau hyn a'u heffaith.
- 3. Ystyriwch yr adnoddau** sydd eu hangen ar bob rhan o'ch busnes i weithredu. Gallai'r rhain gynnwys:
 - Pobl
 - Safle
 - Offer
 - Gwybodaeth
 - Cyfathrebu
 - Cyflenwyr/contractwyr allanol
- 4. Mewn fformat hawdd ei ddefnyddio**, dogfennwch wybodaeth am y swyddogaethau sy'n hanfodol i'ch busnes a'r adnoddau sydd eu hangen, gan gynnwys dewisiadau amgen neu wrth gefn ar gyfer pob un.
- 5. Hyfforddwch a phrofwch eich staff** o ran gweithredu'r cynllun parhad a'r rolau a'r gweithdrefnau ynddo.



Manylion Cyswllt Partneriaid

Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr

01656 643643

www.penybontarogwr.gov.uk

Cyngor Caerdydd

02920 872087

www.caerdydd.gov.uk

Cyngor Merthyr Tudful

01685 725000

www.merthyr.gov.uk

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

01639 686868

www.npt.gov.uk/cy/

Cyngor Rhondda Cynon Taf

01443 725005

www.rctcbc.gov.uk/cy

Cyngor Abertawe

01792 636000

www.abertawe.gov.uk

Cyngor Bro Morgannwg

01446 700111

www.bromorgannwg.gov.uk/cy

Heddlu De Cymru

01656 655555

www.south-wales.police.uk/cy-GB

Heddlu Trafnidiaeth Prydain

0800 40 50 40

www.btp.police.uk/cy-GB

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

01443 232000

www.decymru-tan.gov.uk

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

0370 6060699

www.mawwfire.gov.uk/cym/

Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau

01407 762051

www.gov.uk/mca

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

01792 311773

ambiwylans.gig.cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

02920 747747

bipcaf.gig.cymru/

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

01443 744800

bipctm.gig.cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

01639 862010

bipba.gig.cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru

02920 745515

icc.gig.cymru

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

029 2019 6161

felindre.gig.cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

0300 065 3000

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Y Swyddfa Met

0370 900 0100

www.metoffice.gov.uk



Manylion Cyswllt Partneriaid

Y Grid Cenedlaethol

0800 096 3080

www.nationalgrid.co.uk

Dŵr Cymru

0800 052 0130

www.dwrcymru.com/cy-gb

Cyfleustodau Cymru & Gorrlewin

08009122999

www.wwutilities.co.uk/cy

Telathrebu Prydain

03301234150

www.bt.com

Awdurdod Adfer Mwyngloddiau

0345 762 6848

www.miningremediation.co.uk

Asiant Cefnffyrdd De Cymru

0300 123 1213

traffig.cymru

Trafnidiaeth Cymru

03333 211 202

trc.cymru

Rhwydwaith Rheilffyrdd

03457 11 41 41

www.networkrail.co.uk

Maes Awyr Caerdydd

01446 711111

cy.cardiff-airport.com

Llywodraeth Cymru

0300 0604400

www.llyw.cymru

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

www.gov.uk/mod

Gwefannau defnyddiol mewn argyfwng

[Grid Cenedlaethol - Toriadau
Pŵer](#)

[Dŵr Cymru - Rhoi
gwybod am broblem](#)

[Y Swyddfa Met -
Rhybuddion Tywydd](#)

[BBC Newyddion - Cymru](#)

[Trafnidiaeth Cymru -
Diweddariadau Teithio](#)

[Cyfoeth Naturiol Cymru -
Rhybuddion Llifogydd](#)

[Cyfleustodau Cymru &
Gorrlewin - Argyfyngau Nwy](#)

[Llywodraeth y DU -
Newyddion](#)

Fforwm Cydnerth Lleol De Cymru



**FCLDC
SWLRF**

South Wales Local Resilience Forum



Cofrestr Risgiau Cymunedol FCLDC - Fersiwn 15. 2026